Annwyl Bawb

E-FWLETIN: 24 TACHWEDD 2008

Mae'n ddiwrnod o newid wrth i mi ysgrifennu'r e-fwletin hwn gydag arddangosfa *'Gwledydd'* Plas Lluest yn cael ei dynnu lawr a rhagflas o arddangosfa *Same Difference* yn barod i fynd lan. Dyma'r ail yn ein cyfres o ddigwyddiadau i nodi trigeinfed pen-blwydd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Yr wyf wedi sôn am brosiect *Same Difference* mewn e-fwletinau blaenorol; mae'n arddangosfa gelf sy'n fythol tyfu, yn cysylltu plant ar draws y byd. Bydd y rhagflas o'r arddangosfa yma tan y Nadolig gyda'r arddangosfa lawn yn dod ym mis Mawrth.

Nodir manylion digwyddiadau eraill Morlan sy'n dathlu'r chwedegmlwyddiant.

- **7.00, nos Fercher, 3 Rhagfyr: *60 Mlynedd o Hawliau Dynol?:*** noson gymdeithasol o drafod – ar y thema "*Human Rights Controversies"* dan arweiniad yr Athro Ken Booth – a chanu gyda Chôr Gobaith, wedi'i drefnu gan Morlan a changen leol Amnest Rhyngwladol. Mynediad trwy gyfraniad gyda'r elw yn mynd at Amnest Rhyngwladol a Médecins Sans Frontières; darperir lluniaeth ysgafn.
- **7.30-11.00, nos Fercher, 10 Rhagfyr (Diwrnod Hawliau Dynol): *Gig dros Hawliau Dynol*** gyda Gruff Rhys, Euros Childs a'r grŵp lleol Triattica. Tocynnau: £8 (ar gael o flaen llaw o'r Morlan - ac yn gwerthu'n gyflym). Yn ogystal â nodi pen-blwydd y datganiad, bydd y gig hefyd yn rhoi cyfle i bobl ifanc o dan 18 oed mwynhau rhai o enwau mwyaf y sin roc Gymraeg mewn awyrgylch di-alcohol. Bydd diodydd ysgafn a byrfwydydd masnach deg a/neu organig yn cael eu gwerthu ar y noson.
- **6.00, nos Sul, 11 Ionawr: *O Blith fy Mhobl*** – cyflwyniad gan Gwmni'r Morlan, wedi'i ysgrifennu'n arbennig ar gyfer yr achlysur gan y Parch. Pryderi Llwyd Jones.

Mawr obeithiwn y byddwch yn dod i gefnogi o leiaf un o'r digwyddiadau hyn. Mabwysiadwyd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol gan y Cenhedloedd Unedig ar 10 Rhagfyr 1948; mae'n ddogfen bwysig a chynhwysfawr, yn weledigaeth glir ar gyfer pobloedd a chenhedloedd y byd. Mae'n cynnwys 30 o erthyglau sy'n gosod allan amrediad eang o hawliau dynol sylfaenol, pethau y mae pob person ar draws y byd ag hawl iddynt, yn ddiwahân. Yn ogystal â dathlu'r pen-blwydd hwn, mae'r digwyddiadau hefyd yn rhoi cyfle i'n hatgoffa nad yw pob gwlad yn cydymffurfio'n llawn â'r Datganiad a bod yna dal nifer helaeth o bobl yn byw heb ryddid, diogelwch na llewyrch.

Nodir isod gweddill y digwyddiadau sy'n cymryd lle ym Morlan dros yr wythnosau nesaf.

- 2.00-5.00, dydd Mercher, 26 Tachwedd: Fforwm Pobl 50+ (Cyngor Sir Ceredigion)
- 7.00, nos Fercher, 26 Tachwedd: Trafodaeth ar ryfeloedd (Irac, Afghanistan ...) a sut mae rhoi terfyn arnynt. Cadeirydd: Cynog Dafis (trefnwyd gan Rwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth).
- 7.30, 30 Tachwedd-1 Rhagfyr: *One Flew Over The Cuckoo's Nest*, cynhyrchiad y Nomadic Players. Tocynnau: £4 (ar gael trwy e-bostio scty05@aber.ac.uk)
- Dydd Sadwrn, 6 Rhagfyr: Ffair Nadolig Plaid Cymru
- 2.00-4.00, dydd Iau, 11 Rhagfyr: Sesiwn Nadolig Prifysgol y Drydedd Oes
- 7.30, nos Sul, 14 Rhagfyr: Côr ABC yn cyflwyno *Dilyn y Seren*, yn cynnwys *Atgof o'r Sêr,* Robat Arwyn. Unawdwyr: Helen Medi Williams a Barry Rees. Tocynnau: £10 (pensiynwyr £7, plant £5) ar gael o Gerdd Ystwyth, Dots, Siop Inc neu drwy

ffonio 07929-899002. Elw at Eisteddfod yr Urdd 2010, Apêl Aberystwyth a Phenparcau.

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr